



# Egwyddorion Dyfarnu

IONAWR 2022



## CYNNWYS

Hanes y fersiwn.....	3
Cymhwyso'r Ddogfen Reoleiddio hon.....	3
Adran 1 - Egwyddorion Dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig.....	4
Adran 2 - Egwyddorion Dyfarnu ar gyfer cymwysterau TAG diwygiedig .....	5
Adran 3 - Egwyddorion Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau perthnasol.....	6

## **Hanes y fersiwn**

Dyma fersiwn 2 o Egwyddorion Dyfarnu Cymwysterau Cymru ac fe'i cyhoeddwyd ar 17 Ionawr 2022.

Cafodd y ddogfen hon ei diwygio oherwydd bod cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (Bagloriaeth Cymru) CBAC a fframweithiau cysylltiedig Bagloriaeth Cymru wedi dod i ben yn 2020.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Rydym yn adolygu ein Dogfennau Rheoleiddio ac yn croesawu adborth ar unrhyw adeg. Anfonwch unrhyw sylwadau at [polisi@cymwysteraucymru.org](mailto:polisi@cymwysteraucymru.org).

## **Cymhwyso'r Ddogfen Reoleiddio hon**

Mae'r Ddogfen Reoleiddio hon yn amlinellu'r egwyddorion cyffredinol wrth ddyfarnu cymwysterau cyffredinol gan gynnwys TGAU diwygiedig (adran 1), TAG diwygiedig (adran 2), a chymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau perthnasol (adran 3).

Gan fod cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol (Ôl-16) a Sylfaen (Ôl-16) CBAC a'u fframweithiau Bagloriaeth Cymru cysylltiedig wedi dod i ben yn 2020, mae adran 3 ond yn berthnasol i'r cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau perthnasol canlynol a'u fframweithiau Bagloriaeth Cymru cysylltiedig:

- Tystysgrif Her Sgiliau Sylfaen/Cenedlaethol (Bagloriaeth Cymru) CBAC – QWAN C00/0721/7 (a fframwaith Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen CBAC – QWAN C00/0721/3)
- Tystysgrif Her Sgiliau Uwch (Bagloriaeth Cymru) CBAC – QWAN C00/0721/2 (a fframwaith Bagloriaeth Cymru Uwch CBAC – QWAN C00 0721/6).

## **Adran 1 - Egwyddorion Dyfarnu ar gyfer cymwysterau TGAU diwygiedig**

1. Dylid defnyddio dull 'canlyniadau cymaradwy' wrth ddyfarnu cymwysterau diwygiedig i sicrhau nad yw dysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau newydd yn wynebu mantais nac anfantais o gymharu â'r rheini a oedd yn astudio'r cymhwyster etifeddol.
2. Dylai'r broses ddyfarnu ystyried rhagfynegiadau ystadegol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad carfan genedlaethol wedi'i ategu adolygiad o waith yr ymgeisydd.
3. Pan gaiff data eu defnyddio i ddarparu cyd-destun ystadegol cyfun ar gyfer y dyfarniad, dylai hyn fod yn seiliedig ar ymgeiswyr o ganolfannau yng Nghymru yn unig.
4. Dylid gosod ffiniau gradd ar lefel cymhwyster ac elfen/uned yn unol â'r ddogfen reoleiddio Gofynion ar gyfer gosod lefelau cyrhaeddiad penodedig ar gyfer cymwysterau TAG a TGAU.
5. Mewn cymwysterau unedol, mae'n rhaid dyfarnu a chofnodi canlyniadau gradd ar lefel uned a chymhwyster. (Cymhwyster unedol yw cymhwyster a ddyfernir ar sail marciau unffurf).
6. Wrth ddyfarnu pob cymhwyster TGAU, mae'n rhaid ystyried ystod briodol o dystiolaeth ansoddol a meintiol; mae'n rhaid dogfennu sail resymegol er mwyn cyfiawnhau'r penderfyniad i ddewis y dystiolaeth a ystyriwyd, y broses o flaenoriaethu'r dystiolaeth honno a'r pwys a roddwyd arni.
7. Lle y bydd goddefiant cofnodi yn gymwys, bydd yn gweithredu ar gyfer y canlyniadau gradd allweddol ar lefel cymhwyster.

## **Adran 2 - Egwyddorion Dyfarnu ar gyfer cymwysterau TAG diwygiedig**

1. Dylid defnyddio dull 'canlyniadau cymaradwy' wrth ddyfarnu cymwysterau diwygiedig i sicrhau nad yw dysgwyr sy'n astudio'r cymwysterau newydd yn wynebu mantais nac anfantais o gymharu â'r rheini a oedd yn astudio'r cymhwyster etifeddol.
2. Dylai'r broses ddyfarnu ystyried rhagfynegiadau ystadegol sy'n seiliedig ar ddadansoddiad carfan genedlaethol wedi'i ategu adolygiad o waith yr ymgeisydd.
3. Pan gaiff data eu defnyddio i ddarparu cyd-destun ystadegol cyfun ar gyfer y dyfarniad, dylai hyn fod yn seiliedig ar ymgeiswyr o ganolfannau yng Nghymru yn unig.
4. Dylid gosod ffiniau gradd ar lefel cymhwyster ac elfen/uned yn unol â'r ddogfen reoleiddio gofynion technegol a ddarperir ar gyfer pob cyfres arholiadau.
5. Dylid ystyried graddau canolraddol o gymharu â rhagfynegiadau; pan fo gwahaniaeth sylweddol, disgwylir i ddull fesul cam gael ei fabwysiadu er mwyn eu hailgysoni.
6. Mewn cymwysterau unedol, mae'n rhaid dyfarnu a chofnodi canlyniadau gradd ar lefel uned a chymhwyster. (Cymhwyster unedol yw cymhwyster a ddyfernir ar sail marciau unffurf).
7. Wrth ddyfarnu pob cymhwyster TAG, mae'n rhaid ystyried ystod briodol o dystiolaeth ansoddol a meintiol; mae'n rhaid cadw sail resymegol wedi'i dogfennu er mwyn cyfiawnhau'r penderfyniad i ddewis y dystiolaeth a ystyriwyd, y broses o flaenoriaethu'r dystiolaeth honno a'r pwys a roddwyd arni.
8. Lle y bydd goddefiant cofnodi yn gymwys, bydd yn gweithredu ar gyfer y canlyniadau gradd allweddol ar lefel cymhwyster.

### **Adran 3 - Egwyddorion Dyfarnu ar gyfer cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau perthnasol**

1. Dylid gosod ffiniau gradd allweddol cydrannau ar gyfer pob cyfres yn feirniadol, wedi'u llywio gan dystiolaeth ansoddol a meintiol perthnasol.
2. Wrth ddyfarnu pob cymhwyster Tystysgrif Her Sgiliau, mae'n rhaid ystyried ystod briodol o dystiolaeth ansoddol a meintiol; mae'n rhaid cadw sail resymegol wedi'i dogfennu er mwyn cyfiawnhau'r penderfyniad i ddewis y dystiolaeth a ystyriwyd, y broses o flaenoriaethu'r dystiolaeth honno a'r pwys a roddwyd arni.
3. Dylid cyfrifo'r radd gyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau gan ddefnyddio'r Raddfa Marciau Unffurf (UMS).
4. Dylid dyfarnu a chofnodi canlyniadau gradd ar lefel cydran a chymhwyster.
5. Lle y bydd goddefiant cofnodi yn gymwys, bydd yn gweithredu ar gyfer y canlyniadau gradd allweddol ar lefel cymhwyster.